**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lord Dafydd Elis-Thomas AM,
Chair, Environment and
Sustainability Committee,
National Assembly for Wales,
Cardiff Bay,
CARDIFF
CF99 1NA

20 January 2014

Dear Dafydd,

**Future Generations, Planning and Environment Bills**

Thank you for your letter of 19 December 2013, concerning the interdependencies between the Future Generations, Planning and Environment Bills.

The Future Generations Bill will help achieve a much needed step change in the delivery of outcomes for people and communities in Wales. It will ensure named public service organisations focus on shared goals which seek to deliver a sustainable and fairer Wales for the long term. These goals will help address the generational challenges by expressing the long term economic, social and environmental well-being of Wales. This emphasis on making changes for the long term is central to a number of our forthcoming legislative proposals.

The Environment Bill will provide a modern statutory framework for the sustainable management of natural resources by legislating for a more joined-up and proactive process. At its heart is therefore the application of sustainable development to the management of our natural resources and in particular the role of Natural Resources Wales. The policy links between the Bills are further complemented by practical proposals, as illustrated by the suggested role for NRW as part of the proposed Advisory Council, which will ensure the sustainable management of our natural resources is at the heart of the proposed Future Generations Commissioner's periodic report on behalf of Future Generations in Wales.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100%*
*recycled paper*

The Planning Bill is intended to secure the reforms needed to deliver an improved, more consistent and timely planning service. The land use planning system is an important delivery mechanism for a significant number of Welsh Government policies, including on the economy, housing and heritage, as well as sustainable development and the environment.

The three pieces of legislation are therefore interlinked and complementary. There is a robust governance and programme and project management framework for the delivery of these three Bills to ensure their development is coordinated and joined-up. Specific attention has been paid to ensuring the opportunity for the development of complementary provisions is fully explored and considered.

Formal programme management arrangements are in place for each of these Bills and the Senior Responsible Officers (SRO) for each Bill sit on the respective programme boards. In addition there are a number of arrangements at an operational level which support consideration of Bill inter-relationships and dependencies.

The principle of ensuring joined-up working has also been applied to external engagement activities: several stakeholders are represented on both the Natural Resources Reference Group and the Future Generations Reference Group, for example Wales Environment Link, to enable discussion and understanding of how the Bills will work together. The Future Generations Bill has a two-monthly Bill reference and advisory group chaired by the Commissioner for Sustainable Futures with representatives from a broad range of external stakeholders, including the CBI, Natural Resources Wales and Local Authorities.

You also asked about the overarching governance arrangements which exist for ensuring coordination of the legislative programme. We have established a Legislative Programme Board, which has a central role in the overall management and monitoring of the legislative programme as part of the wider Programme of Government. It provides guidance and assurance, bringing together senior officials from across the organisation to ensure the coordination and joining up of the Government's cross cutting priorities. It provides a quarterly report on the management of the legislative programme to Cabinet.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Busines

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas
AC,
Cadeirydd, Pwyllgor yr
Amgylchedd a Chynaliadwyedd,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
CAERDYDD
CF99 1NA

20 Ionawr 2014

Annwyl Dafydd,

**Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, y Bil Cynllunio a Bil yr Amgylchedd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr 2013. Ynddo roeddech yn sôn am y gyd-ddibyniaeth rhwng Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, y Bil Cynllunio a Bil yr Amgylchedd.

Bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu i gyflawni'r gwelliant sylweddol sydd ei angen o ran sicrhau canlyniadau i bobl a chymunedau Cymru. Bydd yn sicrhau bod sefydliadau penodol yn y gwasanaeth cyhoeddus yn canolbwyntio ar nodau cyffredin, gyda'r bwriad o greu Cymru decach a mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y nodau hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hynny sy'n para o un genhedlaeth i'r llall, drwy daclo lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru yn y tymor hir. Mae'r pwyslais hwn ar wneud newidiadau er lles y tymor hir yn ganolog i nifer o'r cynigion deddfwriaethol sydd gennym yn yr arfaeth.

Bydd Bil yr Amgylchedd yn darparu fframwaith statudol fodern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, drwy ddeddfu er mwyn creu proses ragweithiol a mwy cydgysylltiedig. Felly mae cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy at reoli ein hadnoddau naturiol, yn enwedig rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn hynny o beth, yn greiddiol i'r Bil. Drwy ategu'r cysylltiadau polisi rhwng y Biliau â chynigion ymarferol, er enghraifft rôl bosibl Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Cyngor Cynghori arfaethedig, gellir sicrhau y bydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn elfen greiddiol o adroddiadau achlysurol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ran Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Bwriad y Bil Cynllunio yw gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau gwasanaeth cynllunio gwell, prydlon a mwy cyson. Mae'r system gynllunio defnydd tir yn fecanwaith pwysig i gyflawni nifer fawr o bolisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r economi, tai, treftadaeth, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy.

Felly, mae'r tri darn o ddeddfwriaeth wedi'u cydgysylltu ac yn cydweddu. I gyflawni gwaith y tri Bil hwn, ac i sicrhau y datblygir hwy mewn ffordd gydlynol, mae fframwaith gadarn yn ei le ar gyfer llywodraethu a rheoli rhaglenni a phrosiectau. Rhoddwyd sylw penodol i sicrhau bod cyfle i archwilio ac ystyried datblygu darpariaethau sy'n ategu'r tri Bil.

Yn achos pob un o'r Biliau hyn ceir trefniadau rheoli rhaglenni ffurfiol ac mae'r Uwch Swyddogion Cyfrifol ar gyfer y Biliau yn eistedd ar fyrddau'r rhaglenni priodol. Hefyd, mae nifer o drefniadau ar lefel weithredol sy'n cefnogi'r gwaith o ystyried y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth sydd rhwng y Biliau.

Mae'r gweithgareddau ymgysylltu allanol hefyd wedi'u seilio ar yr egwyddor o sicrhau ffordd mwy cydgysylltiedig o weithio : mae nifer o randdeiliaid wedi'u cynrychioli ar y Grŵp Cyfeirio Adnoddau Naturiol a Grŵp Cyfeirio Cenedlaethau'r Dyfodol, er enghraifft Cyswllt Amgylchedd Cymru, er mwyn trafod a deall sut y bydd y Biliau'n ategu ei gilydd. Ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol mae darpariaeth ar gyfer grŵp cynghori a chyfeirio , fydd yn cyfarfod bob deufis o dan gadeiryddiaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyda chynrychiolaeth eang o blith rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y CBI, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Yn eich llythyr, roeddech hefyd yn gofyn am y trefniadau llywodraethu cyffredinol i gydlynu'r rhaglen ddeddfwriaethol. I'r perwyl hwn, rydym wedi sefydlu Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol a chanddo rôl ganolog yn rheoli a monitro'r rhaglen ddeddfwriaethol yn gyffredinol, fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'n rhoi arweiniad a sicrwydd, drwy ddod ag uwch-swyddogion ledled y sefydliad ynghyd i gydlynu a chydgysylltu blaenoriaethau trawsbynciol y llywodraeth.. Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi adroddiad chwarterol i'r Cabinet ar reoli'r rhaglen ddeddfwriaethol.

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business